# Arwain 2019

100 1920~2020

Prifysgol Abertawe Swansea University




# Hyfforddiant newydd i athrawon y dyfodol

Mae Prifysgol Abertawe wedi datblygu cwrs newydd sbon ar gyfer hyfforddi darpar athrawon.

Mae'r cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR), a fydd yn cychwyn ym mis Medi 2020, wedi ei lunio'n benodol i ddiwallu anghenion cyfundrefn addysg Cymru wrth iddi wynebu newidiadau sylfaenol. Bydd y cwrs un flwyddyn amser-llawn gyda Statws Athro Cymwysedig (SAC) yn cyfuno ymchwil a pholisi gydag ymarfer mewn ysgolion gan baratoi myfyrwyr i fod yn athrawon uwchradd.

Fe fydd y cwrs yn galluogi myfyrwyr graddedig i ddatblygu sgiliau addysgu yn eu pwnc gradd a dysgu sut mae eu pwnc yn gwau i mewn i Feysydd Dysgu a Phrofiad y cwricwlwm newydd. Bydd y cwrs yn cael ei ddarparu trwy Bartneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe gan dynnu ar fentoriaid profiadol yn ein hysgolion Partneriaeth ac arbenigwyr pwnc o wahanol adrannau'r Brifysgol fydd yn cyfrannu at y rhaglen fel Cynghorwyr Academaidd. Mae'r dull hwn o weithredu yn gwneud rhaglen y Dystysgrif Addysg newydd ym Mhrifysgol Abertawe yn unigryw.

Mae pob agwedd o'r rhaglen yn cael ei hatgyfnerthu gan ymchwil, sy'n caniatáu i fyfyrwyr fanteisio ar enw cenedlaethol a rhyngwladol y Brifysgol.

Mae llwybrau pynciau arbenigedd trwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnwys Bioleg, Cemeg, Ffiseg, Cyfrifiadureg, Dylunio a Thechnoleg, Mathemateg, Cymraeg, Ieithoedd Modern (Ffrangeg a/neu Sbaeneg) ac rydym hefyd yn cynnig llwybr ar gyfer Saesneg fel pwnc.

"Yn ogystal â dyfnhau gwybodaeth myfyrwyr o'u pwnc gradd, fe fydd y Cynghorwyr Academaidd yn y meysydd arbenigedd yn eu cyflwyno i'r ymchwil diweddaraf yn y pwnc hwnnw," esboniodd Joanna Thomas, Pennaeth Addysg Gychwynnol Athrawon, Ysgol Addysg Prifysgol Abertawe.

"Gan fod y cwrs wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth ag ysgolion, fe fydd myfyrwyr yn cael cyfle i weithio gyda mentoriaid profiadol yn ysgolion y Bartneriaeth ledled de-orllewin Cymru i ddatblygu eu harferion dysgu."

Ychwanegodd fod ymrwymiad cryf i lesiant myfyrwyr yn y cwrs.

"Fe fydd myfyrwyr yn cael cefnogaeth bersonol, broffesiynol ac academaidd drwy gydol y flwyddyn," meddai.

## Darpariaeth Gymraeg

Fe fydd y cwrs hefyd yn cynnig hyfforddiant iaith benodol ar gyfer myfyrwyr sy'n rhugl eu Cymraeg ac i rai sy'n dymuno gwella eu sgiliau yn yr iaith.

Fe fydd y myfyrwyr sy'n rhugl yn dilyn rhaglen o weithgareddau i loywi eu sgiliau a'u dealltwriaeth o dechnegau addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog, ac yn cael tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg.

I'r myfyrwyr hynny sydd angen datblygu eu sgiliau yn yr iaith, fe fydd rhaglen 'Cymraeg i Oedolion mewn Addysg' yn cael ei darparu gan Academi Hywel Teifi, a honno wedi'i theilwra yn ôl anghenion ieithyddol yr unigolyn.

"Y nod yw galluogi pob darpar athro i feddu ar allu sylfaenol yn y Gymraeg erbyn iddyn nhw gwblhau'r cwrs a rhoi'r arfau, a'r ysgogaeth, iddynt ddal ati hyd at ruglder", meddai Dr Gwenno Ffrancon, Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi.

"Mae'r cwrs TAR hwn yn ychwanegiad pwysig a chyffrous i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg Prifysgol Abertawe. Edrychwn ymlaen yn fawr at groesawu rhai o athrawon y dyfodol trwy ein drysau fis Medi 2020 ac i gydweithio arloesol gyda'r ysgolion yn ein rhwydwaith o bartneriaid."



# Penodi'r Athro Paul Boyle yn Is-ganghellor

Mae Is-ganghellor newydd Prifysgol Abertawe wedi cychwyn yn swyddogol ar ei waith. Mae'r Athro Paul Boyle yn ymuno â Phrifysgol Abertawe ar ôl pum mlynedd fel Is-ganghellor Prifysgol Caerlŷr.

"Dw i wrth fy modd yn ymuno â Phrifysgol Abertawe wrth iddi nesáu at ei chanmlwyddiant yn 2020. Mae cymaint wedi ei gyflawni yma dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys y campws newydd, twf yn niferoedd myfyrwyr, a dringo i safleoedd uwch mewn amryw o dablau cynghrair pwysig.

"Dw i'n edrych ymlaen at gydweithio â staff a myfyrwyr i adeiladu ar y llwyddiant hwn.

"Ar nodyn personol, mae'n wych imi hefyd gael dychwelyd i Abertawe lle dechreuais fy ngyrfa academaidd, ac ar ôl cael fy magu ar arfordir dwyreiniol Lloegr, dw i'n edrych ymlaen at fod yn ôl ger y môr!"

Mae'r Athro Boyle hefyd wedi dechrau ar wersi Cymraeg ers ymuno â'r sefydliad.

Yn ôl Syr Roger Jones, Cadeirydd Cyngor Prifysgol Abertawe, fe fydd yr Athro Paul Boyle yn dod â chyfoeth o brofiad ar y lefel uchaf o reoli addysg uwch i'r swydd. Mae'n Is-Ganghellor profiadol ac yn gyn-Brif Weithredwr y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC), yn aelod o fwrdd Prifysgolion y Deyrnas Unedig ac o'r European University Association.


"Dw i'n hyderus y bydd Prifysgol Abertawe yn mynd o nerth i nerth o dan ei arweiniad, gan adeiladu ar ei chryfderau a chyflawni pethau rhagorol yn y dyfodol."

# Dathlu pen blwydd Emyr Humphreys yn 100 oed

Wrth i un o lenorion amlycaf Cymru ddathlu ei ben blwydd yn 100 oed yn ddiweddar, mae Prifysgol Abertawe wedi mynnu sicrhau sylw teilwng i'r achlysur.

Ganed Emyr Humphreys ym Mhrestatyn ar 15 Ebrill 1919, ac mae'n awdur mwy na dau ddwsin o nofelau, gan gynnwys *Outside the House of Baal*, sy'n cael ei chyfrif yn aml fel nofel Gymreig orau'r ganrif ddiwethaf.

Mae wedi bod â chysylltiad agos â Phrifysgol Abertawe ers 30 mlynedd, a chadair Llenyddiaeth Saesneg Cymru wedi'i henwi ar ei ôl. Mae'n un o noddwyr sylfaenol Canolfan Ymchwil i Lên ac Iaith Saesneg Cymru, ac ef hefyd oedd un o'r unigolion cyntaf i ddod yn Gymrawd er Anrhydedd y Brifysgol. Dros y misoedd diwethaf cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ac achlysuron gan Brifysgol Abertawe i ddathlu ei waith a'i gyfraniad, a hynny dan arweiniad yr Athro M Wynn Thomas, deiliad Cadair Emyr Humphreys y Brifysgol.




Cynhaliodd y Brifysgol symposiwm arbennig ym mis Ebrill i ddathlu etifeddiaeth lenyddol a diwylliannol Emyr Humphreys. Cafodd casgliad newydd o'i gerddi, *Shards of Light*, ei lansio yno, ochr yn ochr â chyfrol yr Athro M Wynn Thomas, *Emyr Humphreys*, yn y gyfres *Writers of Wales*, ac archif newydd o ohebiaeth a gwaith Emyr Humphreys.

"Ceir yn yr archif ohebiaeth a fu rhwng Emyr a finne dros gyfnod o hanner canrif, ynghyd â drafftiau o rai o'i gyhoeddiadau, adolygiadau ar ei waith, a lliaws o ddefnyddiau unigryw eraill," meddai'r Athro M Wynn Thomas.

Ym mis Mai, cynhaliodd Academi Hywel Teifi ddigwyddiad Cymraeg yng Ngŵyl y Gelli i nodi pen blwydd y llenor lle bu'r Athro Thomas, yr Athro Daniel G Williams a'r bardd Menna Elfyn yn amlygu a dathlu ei waith. Bydd Yr Athro Wynn Thomas yna'n traddodi 'Emyr Humphreys yn 100 – Llenor Dihafal' yn y Babell Lên ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst.

"Mae'n briodol ein bod yn dathlu canmlwyddiant nofelydd mwyaf blaenllaw Cymru, yn enwedig o gofio perthynas agos y Brifysgol hon ag ef," meddai.

"Ac nid nofelydd mohono'n unig. Mae wedi cyfrannu'n helaeth hefyd fel bardd, hanesydd diwylliannol, dramodydd teledu, propagandydd, ymgyrchydd a chyfarwyddwr ffilmiau.

"Mae wedi 'nabod cynifer o'r mawrion: Graham Greene, Saunders Lewis, R S Thomas, Richard Burton, Siân Phillips, John Gwilym Jones, Kate Roberts a'u tebyg.

"Ni welwyd ei debyg yma yng Nghymru o'r blaen."



Llun: Bernard Mitchell

# Dathlu'r cant drwy noddi'r Babell Lên

Yn 2020, bydd Prifysgol Abertawe yn dathlu ei chanmlwyddiant ac mae cyfres o ddigwyddiadau i nodi'r garreg filltir arbennig hon wedi'u trefnu. Ymhlith y cynlluniau a'r digwyddiadau mae'r trefniant i noddi'r Babell Lên yn yr Eisteddfod Genedlaethol am y dair blynedd nesaf.

Meddai'r Athro Iwan Davies, Uwch Ddirprwy Is-ganghellor y Brifysgol: "Wrth i'n Prifysgol fwrw golwg yn ôl dros y ganrif ddiwethaf o gyfrannu at gynnal a chyfoethogi'r diwylliant Cymraeg, does yna'r un ffordd well o ddathlu hynny na thrwy gefnogi a chydweithio ag un o'n prif sefydliadau cenedlaethol."

Wrth groesawu'r cyhoeddiad am y nawdd, meddai Betsan Moses, Prif Weithredwr yr Eisteddfod Genedlaethol: "Rydym yn ddiolchgar iawn i Brifysgol Abertawe am noddi'r Babell Lên, ac rwy'n sicr y bydd hon yn bartneriaeth arbennig i'r ddau sefydliad.

Meddai'r Dr Gwenno Ffrancon, Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi: "Fe wyddom ni oll mai ail gartref yr Athro Hywel Teifi Edwards oedd y Babell Lên; roedd ei ddarlithoedd yno'n chwedlonol! Mae'r Academi sy'n dwyn ei enw, felly, yn hynod o falch o gyfrannu at y rhaglen fywiog flynyddol o ddarlithoedd, paneli trafod a sgyrsiau a gaiff eu cynnal yn y babell arbennig hon."

100 1920–2020 Prifysgol Abertawe Swansea University

**Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019**

### Sesiynau Prifysgol Abertawe ar y Maes

Dydd Llun 5 Awst 12.45 **Emyr Humphreys yn 100 - Llenor Dihafal** (Y Babell Lên)

I nodi pen blwydd Emyr Humphreys yn 100 eleni, bydd yr Athro M. Wynn Thomas, deiliad Cadair Emyr Humphreys Llenyddiaeth Saesneg Cymru ym Mhrifysgol Abertawe, yn cynnig golwg ar ei fywyd a'i waith.

Dydd Llun 5 Awst 15:00 **Tai haf - Polisi i Gymru** (Cymdeithasau 1)

Dr Simon Brooks o Academi Morgan yn trafod ei ymchwil i effaith tai haf gyda Gweinidog Cysgodol Plaid Cymru dros Addysg a'r Iaith Gymraeg a Siân Gwenllian, AC.

Dydd Mawrth 6 Awst 12.45 **Y graig yn sownd o dan ein traed** (Y Babell Lên)

Rhai o brif gyfansoddwyr Cymru, a chyfeillion Prifysgol Abertawe – Dewi Pws Morris, Cleif Harpwood a Huw Chiswell yn trafod dylanwad lle a chymuned ar eu caneuon a'u cerddi.

Dydd Mercher 7 Awst 12.45 **Byw Iaith** (Y Babell Lên)

Y Prifardd Aneirin Karadog, Adran y Gymraeg, a'r Prifardd Twm Morys yn sgwrsio am fyw yn Llydaw, ac yn trafod cyfrol Aneirin 'Byw Iaith: taith i fyd y Llydaweg' (Gwasg Carreg Gwalch).

Dydd Mercher 7 Awst 15:30 **Creu Dinasyddiaeth i Gymru** (Cymdeithasau 2)

Dr Gwennan Higham o Adran y Gymraeg a Dr Angharad Closs Stephens o'r Adran Ddaearyddiaeth, yn trafod eu hymchwil ar hawliau iaith lleiafrifoedd a mewnfudwyr gyda'r Comisiynydd Cymraeg newydd, Aled Roberts.

Dydd Iau 8 Awst 11.00 **Darlith Goffa Hywel Teifi - Yr Athro Gwynedd Parry Helbulon Cyfreithiol Beirdd a Llenorion Dyffryn Conwy** (Y Babell Lên)

Ac yntau wedi ei fagu ym Melin-y-Coed, bydd Yr Athro Gwynedd Parry o Adran y Gymraeg yn tynnu ar ffrwyth ei gyfrol newydd, 'Y Gyfraith yn ein Llên', wrth iddo sôn am brofiadau a phrofedigaethau cyfreithiol rhai o feirdd a llenorion enwog bro'r Eisteddfod.

Dydd Gwener 9 Awst 11.00 **Elena Puw Morgan – awdures leol o flaen ei hoes** (Y Babell Lên)

Yn sgil ail-gyhoeddiad diweddar o'i nofel, 'Nansi Lovell' sy'n gofnod o berthynas Elena Puw Morgan â'r Romani Cymreig, bydd wyresau yr awdures, Dr Angharad Puw Davies (Ysgol Feddygaeth) a Dr Mererid Puw Davies (UCL) yn sgwrsio am ei gwaith a'i bywyd.

Dydd Gwener 9 Awst 15:00 **Cydraddoldeb i Fenywod – a fu cynnydd?** (Cymdeithasau 1)

Y bwlch cyflog, gwahaniaethu, diffyg menywod mewn rolau arweiniol o fewn academia, gwleidyddiaeth a pholisi cyhoeddus. Trafodaeth rhwng Dr Gwenno Ffrancon (Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi), Helen Antoniazzi (Chwarae Teg) a Beca Brown (colofnydd).

# Lansio apêl Ysgoloriaeth Goffa Hywel Teifi



Fe fydd apêl yn cael ei lansio gan Academi Hywel Teifi ar faes yr Eisteddfod i godi arian ar gyfer ysgoloriaeth newydd.

Amcan Ysgoloriaeth Goffa Hywel Teifi fydd helpu myfyrwyr ôl-radd i astudio maes sy'n ymwneud â chyfraniad Hywel Teifi i ddysg a diwylliant Cymru.

Fe fydd yr ysgoloriaeth gyntaf yn cael ei dyfarnu yn yr Eisteddfod yn Nhregaron y flwyddyn nesaf.

"Fe fydd y flwyddyn nesaf, 2020, yn arwyddocaol inni am sawl ystyr," esboniodd Sioned Williams o Academi Hywel Teifi.

"Fe fyddwn ni'n nodi canmlwyddiant y Brifysgol yn Abertawe, a 10 mlynedd ers sefydlu Academi Hywel Teifi. Ar ben hyn, mae'r Eisteddfod yng Ngheredigion, sir enedigol Hywel Teifi."

Gobaith yr Academi yw perswadio nifer fawr o Eisteddfodwyr a charedigion y Gymraeg i gyfrannu £5 y mis at yr ysgoloriaeth.

"Pe bai modd i chi gyfrannu llai na chost paned o goffi'r wythnos, gallwn gynnig y gefnogaeth werthfawr hon i fyfyrwyr a choffáu cyfraniad arbennig Hywel Teifi Edwards i fywyd Cymru," meddai Sioned Williams.

Meddai'r darlledwr Huw Edwards, mab Hywel Teifi: "Rwy'n gobeithio y bydd cyfeillion o Gymru a thu hwnt yn fodlon cyfrannu at yr Ysgoloriaeth Goffa hon a fydd nid yn unig yn cadw'r cof am 'nhad yn fyw, ond hefyd yn sicrhau cefnogaeth i ysgolheigion cyfrwng Cymraeg a pharhad i'r meysydd y treuliodd ei oes yn eu hastudio a'u dysgu."

Fe fydd yr apêl yn cael ei lansio mewn derbyniad gan Brifysgol Abertawe yn Pl@tiad ar faes yr Eisteddfod am 12.00 ddydd Iau 8 Awst.

# Ennill gwobr Llyfr Barddoniaeth Gymraeg y Flwyddyn


Cyfrol gan yr Athro Brifardd Alan Llwyd oedd enillydd y categori Barddoniaeth Gymraeg yng Ngwobr Llyfr y Flwyddyn Cymru 2019.

Casgliad o gerddi bywgraffyddol ganddo wrth iddo gyrraedd ei 70 oed yw *Cyrraedd a Cherddi Eraill.*


Mae'r prifardd a enillodd Gadair a Choron yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nyffryn Clwyd yn 1973 ac yn Aberteifi yn 1976 yn Athro yn Adran y Gymraeg Prifysgol Abertawe ers 2013.

Cafodd cerddi ei gyfrol ddiweddaraf eu llunio rhwng 2016 a 2018, ac mae adran gyntaf y gyfrol, 'Cyrraedd' yn cynnwys ychydig dros 70 o gerddi yn dathlu'r ffaith iddo gyrraedd oed yr addewid, a'r ail adran yn gerddi achlysurol, yn rhai personol a rhai cymdeithasol.

"Mae'r Adran gyfan mor falch o gamp Alan," meddai Dr Rhian Jones, Pennaeth Adran y Gymraeg. "Rydym yn ffodus iawn o gael rhywun o'i allu eithriadol fel aelod o'r Adran a fydd yn medru ysbrydoli ac ysgogi'r genhedlaeth nesaf o lenorion ac ysgolheigion."









# Llyfrau'r Brifysgol yn y Brifwyl

***Fe fydd amryw o aelodau o staff Prifysgol Abertawe yn trafod eu llyfrau diweddaraf ar faes y Brifwyl …***

Uwch-ddarlithydd hanes yw **Dr Gethin Matthews**, a phrofiadau tri brawd o gyrion Abertawe yn y Rhyfel Mawr yw testun ei gyfrol ***Having a Go at the Kaiser***. Mae'n cynnwys dros gant o lythyrau a anfonodd tri brawd o Fynyddbach gartref yn ystod y rhyfel, a'u hymgais i gadw'u rhwymau teuluol yn gryf. Fe fydd yn sôn mwy am ei gyfrol b'nawn Sadwrn 3 Awst yn y Lle Hanes.

Myfyriwr PhD yn Adran y Gymraeg Prifysgol Abertawe yw'r Prifardd **Aneirin Karadog**, sydd wedi treulio'r rhan fwyaf o'r flwyddyn ddiwethaf yn Llydaw. ***Byw Iaith: Taith i fyd y Llydaweg*** yw teitl ei lyfr, ac mae'n dangos, er gwaetha'r darogan gwae, fod yna bobl sy'n byw eu bywydau drwy'r Llydaweg heddiw.

Fe fydd yn trafod ei lyfr mewn sgwrs gyda Twm Morys yn y Babell Lên ddydd Mercher 7 Awst.

***Y Gyfraith yn ein Llên*** yw teitl cyfrol newydd yr Athro **Gwynedd Parry** o Adran y Gymraeg. Ynddi, mae'n defnyddio cyfeiriadau at y gyfraith yng ngweithiau beirdd a llenorion fel ffynhonnell i ddehongli agweddau'r Cymry tuag at y gyfraith ar hyd y canrifoedd. Mae ffrwyth ei ymchwil yn rhychwantu'r cyfnod o Oes y Tywysogion at brotestiadau iaith y degawdau diwethaf.

Fe fydd yn trafod ei gyfrol gyda'r Prifardd Emyr Lewis b'nawn Iau ym Mhabell Cymdeithasau 1 ar ddiwrnod prysur iawn iddo ar ôl traddodi Darlith Goffa Hywel Teifi yn y bore.

# Academi Morgan yn meithrin areithwyr ifanc




A yw'r pwyslais ar leihau gwastraff plastig yn ein harwain i esgeuluso'r frwydr yn erbyn newid hinsawdd?

Hwn oedd y cwestiwn y bu areithwyr ifanc yn mynd i'r afael ag ef mewn cystadleuaeth siarad cyhoeddus yn y GwyddonLe yn Eisteddfod yr Urdd eleni.

Academi Morgan, yr uned bolisi cyhoeddus ym Mhrifysgol Abertawe a sefydlwyd er cof am y cyn-Brif Weinidog Rhodri Morgan, oedd noddwyr y gystadleuaeth.

"Cafodd Her Academi Morgan ei chynnal gyntaf fel arbrawf yn y GwyddonLe y llynedd," meddai Saran Thomas, trefnydd y gystadleuaeth. "Fe brofodd i fod yn gymaint o lwyddiant fel y penderfynwyd ei chynnal yn flynyddol."

Tair ysgol a gyrhaeddodd y rhestr fer i gymryd rhan yn yr Her eleni – sef ysgolion cyfun Bryn Tawe, Garth Olwg, a Preseli.

Roedd dau ddisgybl o bob un o'r ysgolion hyn, gydag un yn siarad o blaid y cynnig a'r llall yn erbyn. Roedd pob cystadleuydd yn cael pedwar munud yr un i ddadlau yn erbyn disgybl o ysgol arall, ac wedyn yn gorfod ateb cwestiynau'r beirniaid, sef Jeremy Miles AC a Dr Aled Eirug, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Academi Morgan.

Roedd y siaradwr gorau o blaid a'r siaradwr gorau yn erbyn yn ennill £250 i'w hysgol, gydag Ysgoloriaeth Academi Morgan yn cael ei dyfarnu wedyn i'r enillydd a wnaeth fwyaf o argraff yn y gystadleuaeth.

Thomas Kemp o Ysgol Gyfun Garth Olwg  a ddaeth i'r brig gan ennill cyfle i wneud profiad gwaith yn yr Academi. Siarad yn erbyn y cynnig a wnaeth ef. Y siaradwr gorau o blaid y cynnig oedd Manon Simmons o Ysgol Gyfun y Preseli.

"Roedd safon y siaradwyr i gyd yn arbennig o uchel, ac rydym yn falch fod Academi Morgan yn rhoi cyfle i ddisgyblion chweched dosbarth drin a thrafod materion pwysig ac amserol," meddai Saran Thomas.

# Gwobr Merêd yn mynd i Abertawe eleni eto



Am y drydedd flwyddyn yn olynol, mae Gwobr Merêd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi cael ei hennill gan un o fyfyrwyr Prifysgol Abertawe.

Mae'r wobr, a gafodd ei sefydlu yn 2015 er cof am Dr Meredydd Evans, yn cael ei dyfarnu'n flynyddol i gydnabod cyfraniad myfyriwr at fywyd a diwylliant Cymraeg y brifysgol mae'n astudio ynddi.

Yr enillydd eleni yw Rebecca Martin o Arberth, Sir Benfro, a dderbyniodd ei haddysg uwchradd yn Ysgol y Preseli, Crymych. Mae Rebecca yn graddio yr haf hwn gyda dosbarth cyntaf  mewn BA Ffrangeg a Sbaeneg, ac fe astudiodd rannau o'i chwrs trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe yn sgil derbyn Prif Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg.

Dros y flwyddyn a fu, Rebecca oedd Swyddog Materion y Gymraeg, Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe ynghyd â Llywydd Fforwm Myfyrwyr Cangen Abertawe a bu'n hynod o weithgar yn y rôl. Fe fu hefyd yn gynrychiolydd myfyrwyr ar Fwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg gan gyfrannu at drafodaethau ar ran ei chyd-fyfyrwyr.

"Mae'r flwyddyn wedi bod yn un gwerth chweil, a dwi'n hynod o falch fod myfyrwyr Cymraeg wedi elwa yn sgil fy ymdrechion. Mae'n fraint derbyn Gwobr Goffa Merêd," meddai Rebecca.

"Mae'r gymuned Gymraeg o fewn y brifysgol yn Abertawe wedi bod yn elfen allweddol o'm hamser fel myfyrwraig, felly mae'n bleser gallu rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned hon.

Bydd Rebecca yn derbyn y wobr gan y Coleg Cymraeg mewn digwyddiad arbennig yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst.

Lois Griffiths, Swyddog Cangen y Coleg Cymraeg Prifysgol Abertawe, a enwebodd Rebecca.

"Gydol ei chyfnod ym Mhrifysgol Abertawe, mae Rebecca wedi gwneud cyfraniad nodedig i'r bywyd Cymraeg," meddai Lois.

"Gweithiodd yn ddygn tu hwnt ar ran ei chyd-fyfyrwyr, ac yn sgil ei hymdrechion diflino i greu swydd o'r fath o fewn Undeb y Myfyrwyr, fe ddechreuodd Swyddog Materion y Gymraeg llawn amser, cyflogedig ar ei gwaith yr haf hwn. Mae Rebecca'n gadael gwaddol aruthrol ar ei hôl i'r Undeb Myfyrwyr, i'r Brifysgol ac i'r miloedd o fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg sydd yn dod trwy ddrysau Prifysgol Abertawe bob blwyddyn."

Ychwanegodd Dr Hefin Jones, Deon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: "Rhyfeddaf, yn flynyddol, at safon yr enwebiadau a ddaw i law ar gyfer Gwobr Merêd.  Rydym fel Coleg Cymraeg, a chenedl, yn ddyledus iddynt. Rwy'n llongyfarch Rebecca'n fawr, am ei gwaith ym Mhrifysgol Abertawe, yn gyffredinol ymysg myfyrwyr Cymraeg, ac i'r Coleg Cymraeg, yn arbennig felly, ei chyfraniad i Fwrdd Academaidd y Coleg."